

/ 8 AUG 2013



**Dafydd Elis-Thomas AC / AM
DWYFOR MEIRIONNYDD**

Ffôn / Tel: 01766 515028
E-bost / E-mail:
dafydd.elis-thomas@wales.gov.uk

Swyddfa'r Etholaeth
7 Bank Place
Porthmadog
Gwynedd
LL49 9AA

6 Awst 2013

Carl Sargeant AC
Y Gweinidog Tai ac Adfywio
Llywodraeth Cymru
Bae Caerdydd
CAERDYDD
CF99 1NA

Annwyl Carl

**PAR: APÊL YN ERBYN PENDERFYNIAD CYNGOR GWYNEDD I WRTHOD
CAIS CYNLLUNIO C12/0902/36/LL**

CYFEIRNOD APÊL: APP/Q6810/A/12/2187802

Ysgrifennaf atoch parthed y penderfyniad a wnaed gan yr Arolygiaeth Gynllunio ar 29 Gorffennaf 2013 i wrthod yr apêl uchod a gyflwynwyd gan Mr Dafydd Evans o Dolwgan, Garndolbenmaen, Gwynedd, LL51 9AJ.

Cyflwynwyd y cais yn wreiddiol i Gyngor Gwynedd ar 18 Mehefin 2012 a gwrthodwyd y cais ar 7 Medi 2012.

Mae Mr Evans yn pryderu gan fod polisi wedi newid ers Medi 2012, ac mae'n honni bod y cais hwn wedi ei wrthod ar sail y polisi newydd er bod y cais gwreiddiol wedi ei gyflwyno yn unol â meini prawf y polisi ar y pryd.

Mae Mr Evans yn awyddus i dderbyn esboniad pellach ynglŷn â thegwch gwrthod cais ar sail meini prawf penodol pan mae'r cais wedi ei lunio i gydymffurfio ag un gwahanol. A yw'r cais cyntaf felly yn newid yn unol â newid mewn polisi?

Teimla Mr Evans ei fod wedi gwneud popeth yn ei allu i gydymffurfio, ac mae sawl asiantaeth wedi ymateb gan ddatgan nad oes ganddynt wrthwynebiad, yn cynnwys CADW a Chyngor Cefn Gwlad Cymru. Yn ogystal, teimla ei fod yn annheg fod ei gais wedi ei wrthod gan fod tyrbinau gwynt eraill wedi eu caniatáu yn gyfagos.



Dafydd Elis-Thomas AC / AM
DWYFOR MEIRIONNYDD

Ffôn / Tel: 01766 515028
E-bost / E-mail:
dafydd.elis-thomas@wales.gov.uk

Swyddfa'r Etholaeth
7 Bank Place
Porthmadog
Gwynedd
LL49 9AA

Byddwn yn ddiolchgar o dderbyn unrhyw wybodaeth bellach ar y penderfyniad hwn gan obeithio lleddfu rywfaint o bryderon Mr Evans. Amgaeaf gopi o'r Penderfyniad Apêl er eich sylw.

Edrychaf ymlaen at eich ymateb.

Yn gywir iawn

Dafydd Elis-Thomas
AC DWYFOR MEIRIONNYDD

Amg